



Golwg agosach ar gymwysterau llinol ac unedol

Mae gwahanol TGAU yn cael eu hasesu mewn gwahanol ffyrdd.

Mae rhai pynciau'n unedol (fe'u gelwir hefyd yn fodiwlaidd) gydag unedau y gellir eu hasesu ar wahanol adegau yn ystod y cwrs, tra bod eraill yn llinol a'r holl arholiadau'n cael eu sefyll ar ddiwedd y cwrs.

Cymwysterau llinol

Mae holl arholiadau cymwysterau llinol yn cael eu sefyll ar ddiwedd y cwrs. Ar gyfer TGAU mae hyn fel arfer yn dilyn dwy flynedd o astudio.

Gyda strwythur llinol, mae mwy o hyblygrwydd gan athrawon ynghylch sut maen nhw'n cyflwyno cynnwys y cwrs. Mae hefyd yn golygu bod myfyrwyr yn cael mwy o amser i adeiladu eu gwybodaeth a'u sgiliau ac i ddatblygu dealltwriaeth lawnach o'r pwnc.

Mae TGAU Saesneg Iaith yn enghraifft o gymhwyster llinol.

Er bod y cymhwyster wedi ei strwythuro mewn unedau, mae'r holl asesu'n digwydd ar ddiwedd y cwrs dwy flynedd. Mae hyn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu ac aeddfedu eu sgiliau darllen, ysgrifennu a llafaredd.



Cymwysterau unedol

Gyda chymwysterau unedol (neu fodiwlaidd), gall dysgwyr gael eu hasesu ar unedau unigol tra bod y cwrs yn parhau i gael ei addysgu. Mae myfyrwyr yn derbyn canlyniadau ar gyfer yr unedau maen nhw'n eu sefyll, ond nid ydyn nhw'n cael gradd gyffredinol am y cymhwyster tan iddyn nhw gwblhau'r holl unedau.

Mae strwythur y cymwysterau unedol yn caniatáu i'r cynnwys gael ei rannu i dalpiau sy'n cael eu diffinio'n eglur, sy'n rhoi ffocws ac eglurder i'r ddarpariaeth a'r dysgu.

Mae myfyrwyr hefyd yn cael dewis sefyll eu harholiadau yn ystod cyfnod y cwrs a lleihau ychydig o'r pwysau o sefyll yr holl arholiadau ar y diwedd.

Mae TGAU Hanes yn enghraifft o gymhwyster unedol.

Yn Uned 1 mae dysgwyr yn astudio Cymru a'r safbwynt ehangach, Uned 2 yw Hanes gyda ffocws Ewropeaidd ac mae Uned 3 yn trafod Astudiaethau Thematig o safbwynt hanesyddol eang.

Er bod sgiliau a dysgu allweddol yn sylfaen i bob uned, mae cynnwys y pynciau'n wahanol, felly mae strwythur unedol yn rhoi'r dewis i fyfyrwyr o sefyll yr asesiad ar ôl cwblhau pob uned, neu gyda'i gilydd ar ddiwedd y cwrs.

